Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55 (CYFFORDD 31 (CAERWYS) I GYFFORDD 32 (CYFFORDD DOLPHIN), SIR Y FFLINT) (TERFYN CYFLYMDER 40 MYA A GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2015

MAE GWEINIDOGION CYMRU wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 31 (Caerwys) a Chyffordd 32 (Cyffordd Dolphin), Sir y Fflint.

Disgwylir y bydd y cyfyngiad a'r gwaharddiad a ganlyn, y codir arwyddion priodol ynghylch eu hyd a'u lled, yn dod i rym am 19:00 o'r gloch ar 7 Mawrth 2015 ac yn parhau tan 06:00 o'r gloch ar 8 Mawrth 2015 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

1. Gosod terfyn cyflymder o 40 mya ar:
   a. y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr A55 rhwng canolbwynt Cyffordd 31 (Caerwys) a thrwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 32 (Cyffordd Dolphin); a
   b. y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin yr A55 rhwng trwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 32 (Cyffordd Dolphin) a chanolbwynt Cyffordd 31 (Caerwys).
2. Gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o'r A55 a bennir uchod. Dim ond am gyfnodau byr y bydd y ffyrdd wedi eu cau a phan fo'n bosibl gosodir arwyddion traffig ymlaen llaw i ddangos hynny. Nid oes angen unrhyw lwybrau dargyfeiriol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhag-weld.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Statudol Lleol/Gorchmynion Traffig Dros Dro/2015).

M D BURNELL
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

THE A55 TRUNK ROAD (JUNCTION 31 (CAERWYS) TO JUNCTION 32 (DOLPHIN JUNCTION), FLINTSHIRE) (TEMPORARY 40 MPH SPEED LIMIT & PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2015

THE WELSH MINISTERS have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road between Junction 31 (Caerwys) and Junction 32 (Dolphin Junction), Flintshire.

The following restriction and prohibition, the extent of which will be signed accordingly, are expected to come into force at 19:00 hours on 7 March 2015 and remain until 06:00 hours on 8 March 2015 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The effect of the Order is to temporarily:

1. Impose a 40 mph speed limit on:
   a. the length of the A55 eastbound carriageway between the centre-point of Junction 31 (Caerwys) and the nosing of the eastbound exit slip road at Junction 32 (Dolphin Junction); and
   b. the length of the A55 westbound carriageway between the nosing of the westbound exit slip road at Junction 32 (Dolphin Junction) and the centre-point of Junction 31 (Caerwys).
2. Prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding in the lengths of the A55 specified above. Any such closures will only be for short periods of time and will, where possible, be indicated by advance traffic signs. No diversionary routes are necessary.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required due to unforeseen circumstances.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.wales.gov.uk (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2015).

M D BURNELL
Transport, Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE